



Cyfarfod

Y CYNGOR

Dyddiad ac Amser

2.30 y.h., DYDD IAU, 3YDD HYDREF, 2019

*** NODER ***

Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu

https://gwynedd.public-i.tv/core//cy_GB/portal/home

Lleoliad

Siambr Dafydd Orwig, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH

Pwynt Cyswllt

Eirian Roberts

01286 679018

eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

(DOSBARTHWYD Dydd Mercher, 25 Medi 2019)

**Dilwyn Williams
Prif Weithredwr**

www.gwynedd.llyw.cymru

DYDD MERCHER, 25 MEDI 2019

Annwyl Gyngorydd,

CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – DYDD IAU, 3 HYDREF 2019

FE'CH GWYSIR TRWY HYN i gyfarfod o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **2.30 y.h., DYDD IAU, 3YDD HYDREF, 2019 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON, GWYNEDD. LL55 1SH**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Yr eiddoch yn gywir



Prif Weithredwr

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i'r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig
Annibynnol – Siambr Hywel Dda
Llais Gwynedd – Ystafell Gwyrfai
Annibynnol Unedig Gwynedd - Ystafell Daron

RHAGLEN

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. COFNODION

4 - 18

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf, 2019 fel rhai cywir (ynghlwm).

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

5. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL

Derbyn unrhyw ohebiaeth, gyfathrebiadau neu fusnes arall a ddygir gerbron yn arbennig dan gyfarwyddyd y Cadeirydd.

6. MATERION BRYN

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

7. CWESTIYNAU

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Adran 4.9 o'r Cyfansoddiad.

8. ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD 2018-19

19 - 50

Cyflwyno adroddiad Arweinydd y Cyngor (ynghlwm).

Eitem 2

Y CYNGOR 18/7/19

Yn bresennol: Y Cynghorydd Edgar Wyn Owen (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Simon Glyn (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr: Craig ab Iago, Dylan Bullard, Stephen Churchman, Annwen Daniels, R.Glyn Daniels, Anwen Davies, Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Aled Evans, Dylan Fernley, Peter Antony Garlick, Gareth Wyn Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, R.Medwyn Hughes, Judith Humphreys, Nia Jeffreys, Peredur Jenkins, Aeron M.Jones, Aled Wyn Jones, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Charles W.Jones, Elin Walker Jones, Elwyn Jones, Eric Merfyn Jones, Gareth Jones, Huw Wyn Jones, Keith Jones, Kevin Morris Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Beth Lawton, Dilwyn Lloyd, Dafydd Meurig, Dafydd Owen, Dewi Owen, W.Roy Owen, Nigel Pickavance, Dewi Wyn Roberts, Elfed P.Roberts, Gareth A.Roberts, John Pughe Roberts, Mair Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Gareth Thomas, Hefin Underwood, Catrin Wager, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gruffydd Williams ac Owain Williams.

Hefyd yn bresennol: Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol / Swyddog Monitro), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol / Pennaeth Gwasanaeth Democratiaeth), Arwel Owen (Pennaeth Cynorthwyol – Tai a Llesiant) (ar gyfer eitem 8), Rhun ap Iarll (Uwch Gyfreithiwr / Dirprwy Swyddog Monitro), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Dewi Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor) (ar gyfer eitem 9) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

1. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Menna Baines, Freya Bentham, Linda Ann Jones, Sion Jones, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Jason Parry, Rheinallt Puw, Peter Read, Mike Stevens, Ioan Thomas a Cemlyn Williams.

2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blynyddol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 2 Mai, 2019 fel rhai cywir.

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol yn eitem 8 ar y rhaglen – Strategaeth Tai, am y rhesymau a nodir isod:-

- Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd oherwydd ei fod yn berchen ar dŷ gwag oedd yn cael ei adnewyddu ar gyfer ei osod.
- Y Cynghorwyr Berwyn Parry Jones a Cai Larsen oherwydd eu bod yn aelodau o Fwrdd Cartrefi Cymunedol Gwynedd.

Nid oedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau oedd yn rhagfarnu ac ni adawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Cydymdeimlwyd â theulu Eurig Wyn, cyn-gynghorydd a chyn Aelod Seneddol Ewrop, a fu farw'n ddiweddar, a thalwyd teyrnged iddo gan yr Arweinydd.

Nodwyd hefyd bod y Cyngor yn dymuno cofio am bawb o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Safodd y Cyngor fel arwydd o barch.

Llongyfarchwyd y canlynol:-

- Iestyn Tyne, aelod o Dîm Cyfieithu'r Cyngor, ar gipio'r Gadair yn Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd eleni, a phawb arall o Wynedd a fu'n fuddugol yn yr Eisteddfod.
- Manon Steffan Ross ar ennill gwobr "Llyfr y Flwyddyn".

Dymunwyd yn dda i Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol) yn dilyn ei benodiad diweddar i swydd gyda Chartrefi Cymunedol Gwynedd a rhoddodd y Prif Weithredwr air o ddiolch iddo am ei flynyddoedd o wasanaeth i'r Cyngor hwn a chyn-gyngor Dosbarth Dwyfor.

Nodwyd y cafwyd cadarnhad gan Recordiau Byd Guinness fod Ffordd Pen Llech yn Harlech, oedd â graddiant o 37.45% yn y man mwyaf serth, wedi cael ei chydabod fel y stryd fwyaf serth yn y byd. Eglurwyd bod y stryd, oedd yn cysylltu gwaelod y dref gyda'r castell, wedi cymryd y teitl oddi wrth Stryd Baldwin yn Dunedin, Seland Newydd, oedd â graddiant o 35% yn y man mwyaf serth.

5. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL

Dim i'w nodi.

6. MATERION BRYD

Dim i'w nodi.

7. CWESTIYNAU

(Dosbarthwyd atebion ysgrifenedig yr Aelodau Cabinet i'r cwestiynau i'r aelodau ymlaen llaw.)

(1) Cwestiwn gan y Cyngorydd Owain Williams

"Mae'r arferiad parhaol gan y gwahanol gyrff cyhoeddus a'r wasg a'r cyfryngau o gyfeirio at 'North Wales' a 'South Wales' a 'Mid Wales', ayyb, yn creu rhwygiadau ymysg ein cenedl, a hyn ar amser pan mae angen undod cenedlaethol. Gofynnaf i'r Arweinydd a fyddai'n fodlon cysylltu â'r Senedd yng Nghaerdydd i ofyn iddynt ymyrryd mewn pob modd posibl er dylanwadu i newid yr arferiad hwn sy'n rhwygo'r genedl hon?"

Ateb gan yr Arweinydd, y Cyngorydd Dyfrig Siencyn

"Nid wy'n siŵr os ydw i'n deall y cwestiwn, na pha ddylanwad sydd gan Lywodraeth Cymru ar enwau ein rhanbarthau, ond mae'n wir dweud bod yna Ranbarth Gogledd Cymru. Mae'n wir dweud hefyd bod yna Ranbarth y

Canolbarth ac mae'n wir dweud bod yna Ranbarth Dinas Caerdydd a Rhanbarth Dinas Abertawe. Rwy'n cytuno'n llwyr fod angen i ni fod yn hyderus fel cenedl, ac yn unol fel cenedl, ond mae pryderu ynglŷn â'r math yma o sylw yn dangos ein diffyg hyder ni. Gadewch i ni barhau i enwi ein rhanbarthau fel y gwelwn ni'n dda. Wn i ddim oes gan y cwestiynydd unrhyw awgrym be ddylem ni fod yn galw'r llefydd yma?"

Cwestiwn Atodol gan y Cyngorydd Owain Williams

"Rwy'n siŵr y byddai'r Arweinydd yn cytuno â mi bod yr undeb yn cael ei ddarnio?"

(2) Cwestiwn gan y Cyngorydd Kevin Morris Jones

"Mae nifer fawr o ddigwyddiadau yn cymryd lle ym mhentref Llanberis, bron bob wythnos. Er bod hyn yn gallu bod yn beth da iawn i economi'r ardal, weithiau mae'r niferoedd o ddigwyddiadau yn ormodol ac yn cael effaith negyddol ar yr ardal, y trigolion a'r ymwelwyr.

Hoffwn gael gwybod os yw'r Cyngor yn ymwybodol faint o bobl sydd yn cystadlu yn y digwyddiadau ar y diwrnod yn ardal Llanberis a faint o rasys (rhedeg, beicio a nofio) sy'n cael eu cynnal ac a yw Cyngor Gwynedd yn caniatáu'r digwyddiadau yma i gyd?"

Ateb gan yr Aelod Cabinet Economi a Chymuned, y Cyngorydd Gareth Thomas

"Gan nad oes raid cael caniatâd Cyngor Gwynedd ar gyfer cynnal pob math o ddigwyddiad, nid yw hi'n bosib i'r awdurdod fod yn ymwybodol o'r nifer o rasys a digwyddiadau sydd yn cael eu cynnal yn Llanberis, na faint sy'n cymryd rhan. Dim ond digwyddiadau sydd yn cael eu cynnal ar dir y Cyngor, neu ddigwyddiadau sy'n gofyn am drwydded adloniant neu alcohol, sydd angen caniatâd y Cyngor. Felly mae yn broblemus. Mae yna nifer o ddigwyddiadau sy'n defnyddio tir y Cyngor ac mi fyddwn i'n barod iawn i gael sgwrs gyda'r cyngorydd i drafod y math yma o beth. Rydw i'n ymwybodol o'r pwysau mae hyn yn rhoi ar gymuned Llanberis ac rwyf wedi gofyn i'r swyddogion o'r Adran Economi a Chymuned gydweithio gyda swyddogion perthnasol ar draws gwasanaethau'r Cyngor a phartneriaid allweddol, megis Parc Cenedlaethol Eryri, i gefnogi'r cyngorydd a'r gymuned i weld sut y gallwn gael gwell rheolaeth ar y digwyddiadau yn Llanberis i'r dyfodol."

Cwestiwn Atodol gan y Cyngorydd Kevin Morris Jones

"Ydi Cyngor Gwynedd yn fodlon agor Glyn Rhonwy i bob digwyddiad yn y dyfodol, wrth gofio mai ond 1,174 o lefydd parcio sydd yna yn Llanberis?"

Ateb gan yr Aelod Cabinet Economi a Chymuned, y Cyngorydd Gareth Thomas

"Mae yna weithgor yn edrych ar Glyn Rhonwy ac mae'r aelod yn aelod o'r gweithgor hwnnw, ac mae hyn yn rhywbeth sy'n cael ei drafod o fewn y gweithgor hwnnw. Fel roeddwn yn adrodd yn gynharach, rwyf wedi gofyn i swyddogion yr Adran eistedd gyda'r cyngorydd, y gymuned, swyddogion y Parc a swyddogion eraill ar draws y Cyngor i weld sut y gallwn gael gwell rheolaeth ar

y sefyllfa. Rwy'n ymwybodol ei fod yn creu problemau ac rwy'n awyddus i geisio datrys y problemau hynny, felly byddwn yn gweithio tuag at hynny yn y dyfodol."

(3) Cwestiwn gan y Cyngorydd Louise Hughes

"Yn ystod cyfarfod diwethaf Cyngor Cymuned Fairbourne, crybwyllwyd pwnc sy'n codi'n aml, sef gweryll dros nos ar y Pwynt. Gwnaethant gais i mi ofyn am arweiniad gan Gyngor Gwynedd ynglŷn â'r ffordd orau o ymdrin â'r mater. Rwy'n sicr fod hwn yn bwnc y mae'r mwyafrif ohonom yn y siambr wedi dod benben ag o yn ein wardiau ryw bryd neu'i gilydd.

Y broblem yw nad am un noson yn unig y mae pobl yn aros. Mae pobl yn gynyddol gyrraedd yn eu faniau gweryll ac yn aros am wythnos neu fwy. A all yr Aelod Cabinet roi unrhyw gyngor ar sut i ymdrin â'r cyfyng gyngor hwn?"

Ateb gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd, y Cyngorydd Gareth Griffith

"Pedwar opsiwn sy'n cael eu rhoi ymlaen gan yr Adran. Gorchymyn llys ydi un ohonynt, ond bosib' nad ydi hynny'n ymarferol, gan nad yw'n rhywbeth y gellir gweithredu arno'n sydyn. Y lleill ydi gorchymyn parcio, rhwystrau ffisegol, a hefyd arwyddo. Ond credaf mai'r pwynt gydag arwyddion yw nad oes ganddynt rym, a'r hyn fyddwn i'n awgrymu ar hyn o bryd, oherwydd nid yw hyn yn unigryw i Fairbourne, gan ei fod yn digwydd yn Y Felinheli a llefydd eraill hefyd, yw ein bod yn dod at ein gilydd ac yn mynd i wraidd hyn. Mae yna ddadl, o blaid ac yn erbyn."

Cwestiwn Atodol gan y Cyngorydd Louise Hughes

"Oes modd i ni orfodi unrhyw orchmynion parcio?"

Ateb gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd, y Cyngorydd Gareth Griffith

"Dyna lle mae'n bwysig cael y drafodaeth. Mae'n dod yn fwy problemus ac mae yna fwy o bobl gyda faniau gweryll yn lle ceir, ac maent yn dod i Wynedd, a chredaf ei bod yn bwysig cael y cydbwysedd o ran yr hyn y gallwn ei wneud. Rydym ni'n croesawu pobl ond mae yna ffordd iawn o ddelio â hyn. Ond fel rwy'n dweud, mae'n bwysig i ni i gyd. Rydym ni i gyd yn cael ein heffeithio gan hyn ac mae'n bwysig i ni eistedd i lawr gyda'n gilydd a symud ymlaen gyda hyn. Mi wnes i sôn wrth rywun fore heddiw am ystyried mynd â'r mater i'w graffu. Nid wy'n siŵr os ydi o wedi bod i'w graffu, ond heb ei symud yn ei flaen, ond bosib' bod yna ddarn o waith fel yna i'w wneud fel bod ni'n cael cyngorwyr yn rhannu eu problemau o'u hardaloedd hwy. Rwy'n derbyn y pwynt yn llwyr, ond credaf fod angen mwy o drafodaeth."

(4) Cwestiwn gan y Cyngorydd Elin Walker Jones

"Rydym yn byw mewn cyfnod ble mae cynhesu byd eang yn fater argyfyngus, a dirfawr angen arnom leihau ein defnydd o allyriadau carbon.

Mae Gwynedd hefyd yn ardal ddaearyddol eang a gwledig, ac mae teithio o fan i fan i fynychu cyfarfodydd yn ddrud, yn ychwanegu at allyriadau carbon, yn wastraff amser ac adnoddau.

Sylweddolwn yn ogystal ei bod hi'n gallu bod yn anodd cyfuno gwaith, cyfrifoldebau teulu a mynychu cyfarfodydd. Rydym yn awyddus i ddenu aelodau

newydd o gefndiroedd mwy amrywiol nag sydd gennym ar hyn o bryd, er mwyn hyrwyddo cynrychiolaeth gynhwysol ac ehangu gwir ddemocratiaeth.

Mae technoleg yn chwarae rhan gynyddol bwysig yn ein bywydau yn yr 21ain ganrif. Er enghraifft, gall fideo gynadledda hwyluso cyfranogiad pobl mewn cyfarfodydd ar draws y Sir, ac yn wir, Cymru gyfan.

Mae modd i ferched neu ddynion sy'n gofalu am blant ymuno mewn cyfarfodydd yn yr hwyr o bell.

Onid yw hi'n ddyletswydd arnom felly i greu strwythurau i hwyluso cymryd rhan mewn cyfarfodydd gan ddefnyddio technoleg, a lleihau'r pwysau ar yr amgylchedd, lleihau'r defnydd o geir, lleihau'r angen i deithio i gyfarfodydd a chynyddu'r potensial am gyfranogiad ystyrion gan ein haelodau, yn ogystal â chynyddu cyfleoedd i fod yn fwy cynhwysol? Pa ddefnydd mae'r Cyngor yn wneud o dechnoleg ym maes democratiaeth a sut fedrwn ni ehangu hyn?"

Ateb gan yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol, y Cynghorydd Nia Jeffreys

"Diolch yn fawr iawn i'r Cynghorydd Elin Walker Jones am ei sylwadau.

Rwy'n cytuno yn llwyr gyda hi fod buddion amgylcheddol o ddefnyddio technoleg fodern ac o fod yn fwy cynhwysol, cynyddu'r potensial am gyfranogiad a denu mwy o unigolion o wahanol gefndiroedd i Lywodraeth Leol, ac i arbed arian hefyd.

Nodaf fod y Cyngor wedi cynyddu ei ddefnydd o dechnoleg, ond mae cyfle i ehangu hynny a byddaf yn parhau i bwysleisio hyn yn ein cyfarfodydd herio perfformiad ac yn fy nghyfarfodydd rheolaidd gyda'r Pennaeth Adran.

✓ Mae'r mwyafrif ohonom yma heddiw yn darllen ein dogfennau pwyllgor yn electroneg, rhywbeth yr ydym yn arfer ei wneud bellach heb feddwl llawer amdano.

✓ Rydym yn tueddu i fod yn cyfathrebu gydag etholwyr trwy gyfrwng electroneg (e-bost, cyfryngau cymdeithasol, ac yn y blaen).

✓ Mae darpariaeth "Skype" ar gael i bob aelod fod yn cysylltu yn electroneg gyda'i gilydd a hefyd cofiwch fod modd i gael sesiwn hyfforddiant byr ar ddefnyddio Skype os ydych eisiau dysgu mwy.

✓ Mae'r Cyngor hefyd yn defnyddio cyfleusterau fideo gynhadledd ar gyfer cyfarfodydd llai. Hoffwn hefyd weld hyn yn cael ei ehangu dros y misoedd nesaf a byddaf yn trafod hyn gyda'r Pennaeth Adran.

Ond mae lle i wella ac mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn edrych ar ddatblygiadau yn y maes.

Rwy'n deall fod rhaid rhoi ystyriaeth deg i faterion megis cyfieithu ar y pryd, pa mor hawdd yw'r dechnoleg i'w defnyddio, cadeirio cyfarfodydd aml-leoliad gan sicrhau tegwch i bawb a phrotocol ynghylch beth sy'n digwydd pan fo unrhyw ddiffyg yn y dechnoleg - ond yn fy marn i, tydi'r ystyriaethau yma ddim yn rhwystr i'r Cyngor a Chynghorwyr fanteisio yn llawn ar y dechnoleg sydd ar gael yng Nghyngor Gwynedd, ac sydd yn gyffredin erbyn hyn mewn llawer i le gwaith.

Mae cyfleoedd i ni drïo gwahanol ddulliau, efallai na fydd popeth yn llwyddiannus bob tro, ond mae yna gyfleoedd i ni drïo pethau yn y dyfodol.

Ar y llaw arall hefyd, mae gennym, un ac oll, gyfrifoldeb i ystyried yr amgylchedd wrth i ni drefnu a chymryd rhan mewn cyfarfodydd, ac rwy'n annog ni i gyd i feddwl cyn teithio. Yn y cyfamser byddaf yn dal i bwysu ar y gwasanaeth i symud ymlaen gyda threfniadau i'w gwneud mor hawdd â phosib i Gynghorwyr fanteisio ar dechnoleg fodern yn eu gwaith.

Gobeithiaf weld cynnydd gwirioneddol mewn defnydd technoleg yn y Cyngor dros y flwyddyn nesaf ac edrychaf ymlaen at ddiweddaru'r Cynghorydd Walker Jones ar y datblygiadau."

Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Elin Walker Jones

"Oes amserlen benodol ar gyfer hyn?"

Ateb gan yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol, y Cynghorydd Nia Jeffreys

"Na, nid oes yna amserlen benodol, ond mae hynny'n syniad gwych, felly mi wnâi gymryd hynny ymlaen."

(5) Cwestiwn gan y Cynghorydd Nia Jeffreys

"Gwyddom fod bwriad i'r Eisteddfod Genedlaethol ymweld â Gwynedd yn 2021 ac felly pa fewnbwn mae'r Cyngor wedi ei gael hyd yma yn y broses o adnabod lleoliad addas i'w chynnal?"

Ateb gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn,

"Derbyniodd y Cyngor gais y llynedd gan yr Eisteddfod i roi help llaw iddynt i adnabod safleoedd, ac mae ein hadran Eiddo wedi bod yn brysur yn teithio'r sir i weld pa safleoedd sy'n addas i gartrefu'r Eisteddfod. Coeliwch chi fi, mae'r rheoliadau o ran canfod safleoedd addas i'r Eisteddfod yn y ganrif hon yn rhai sylweddol iawn, lle mae yna bob math o ofynion ar yr Eisteddfod. Fel y gwelwch, ni chafwyd cais gan yr Eisteddfod i edrych am lefydd ym Meirionnydd. Wn i ddim os yw hynny i'w wneud â'r ffaith bod yr eisteddfod wedi bod tu hwnt o lwyddiannus ym Meirionnydd sawl gwaith, ac rydym ni'n falch iawn o hynny - fe gofiwch y bu yn Y Bala, wrth gwrs, yn 2009. Un o'r ffactorau a ystyriwyd, fel y gwelwch yn yr ateb ysgrifenedig, oedd arwynebedd y tir sydd i'w gael. Credaf ein bod yn sôn am tua 150 o aceri o dir gwastad. Mae materion trafndiaeth yn ystyriaeth, argaeledd trydan a dŵr a risg llifogydd, ac o'r 30 o safleoedd a ystyriwyd, tynnwyd rhestr fer o 4 safle am drafodaeth bellach. Mae astudiaethau technegol manwl wedi eu comisiynu ac mae trafodaethau ar y gweill gyda pherchnogion y safleoedd hynny. I gadarnhau felly, rôl gefnogol yn unig sydd gan y Cyngor yn y broses yma a bydd y penderfyniad terfynol yn nwylo'r Eisteddfod ei hun. Yn dilyn ystyriaeth o'r holl wybodaeth berthnasol gan eu Pwyllgor Technegol, Bwrdd a Chyngor yr Eisteddfod, deallaf y bydd cyhoeddiad ar ddydd Gwener yr eisteddfod ynglŷn â lleoliad yr Eisteddfod yng Ngwynedd, ac rydym yn edrych ymlaen yn arw ac yn croesawu'r Eisteddfod i ble bynnag y bydd yn dod."

8. STRATEGAETH TAI

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Tai adroddiad yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo Strategaeth Dai 2019-2024, gan gadarnhau'r cyfeiriad a'r blaenoriaethau yn y maes tai.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Nid yw'r adroddiad yn nodi pa gyfran o'r dreth ychwanegol a gasglwyd drwy'r premiwm ar ail gartrefi a chartrefi hir dymor gwag sy'n cael ei ail-fuddsoddi er mwyn gwneud gwahaniaeth yn y maes tai.
- Mae amharodrwydd yr Adran Gynllunio i ganiatáu i bobl ifanc adeiladu tai yn eu pentrefi eu hunain yn llesteirio gweledigaeth y Cyngor o gefnogi holl bobl Gwynedd i ffynnu ac i fyw bywyd cyflawn yn eu cymunedau.
- Da o beth fyddai i'r Cyngor gychwyn adeiladu tai cymdeithasol unwaith eto.
- Croesawir y ffaith bod yr Aelod Cabinet wedi cymryd sylw o'r materion a godwyd gan y Pwyllgor Craffu Gofal ac wedi'u hymgorffori yn y Strategaeth.
- Mae'r cyfeiriad yn y Strategaeth at gynllun adeiladu yn gydnabyddiaeth o'r penderfyniad gwarthus a wnaed i drosglwyddo 3,500 o dai cyngor i gwmni preifat am ddim.
- Gofynnir i'r Aelod Cabinet ail-ystyried yr agweddau a ganlyn sydd ar goll o'r Strategaeth, a'u cwmpasu yn y ddogfen:-
 - Er bod cydnabyddiaeth bod disgwyl y bydd cynnydd o 60% yn y nifer o bobl dros 80 yn byw yng Ngwynedd mewn 20 mlynedd, nid oes sôn am y bobl sy'n dod yma i fyw o bob cwr o'r Deyrnas Gyfunol a thu hwnt.
 - Nid oes sôn bod yr iaith Gymraeg yn gymhwyster ar gyfer tŷ mewn rhai ardaloedd.
 - Nid oes sôn am gynnig morgeisi i bobl leol brynu tai, er bod hynny o fewn hawliau'r Cyngor, ac y byddai'n ddoeth buddsoddi yng nghymunedau'r sir, yn hytrach na buddsoddi mewn cwmnïau arfau.
- Gan fod y grantiau sydd ar gael i bobl uwchraddio systemau gwresogi mewn tai hŷn yn destun prawf modd, nid yw pobl mewn gwaith yn cymhwyso, a dylid dwyn pwysau ar Lywodraeth Cymru i sicrhau nad yw'r bobl hyn, sydd fymryn uwchlaw'r trothwy, yn cael eu hanwybyddu.
- Bod pawb o'r aelodau yn gweld pobl eu wardiau yn brwydro i gael tai ac yn byw mewn tai anaddas, a bod y Strategaeth yn chwa o awyr iach drwy'r Cyngor sy'n dangos y pethau positif y gellir eu gwneud i wella sefyllfa trigolion Gwynedd.

Mewn ymateb i rai o'r sylwadau uchod, nodwyd:-

- Yn unol â'r Strategaeth Ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor ym mis Mawrth, bod 100% o'r cynnyrch treth ar ail gartrefi / cartrefi hir dymor gwag (sef tua £2.7m net ar ôl y gost o'i gasglu) yn mynd at brosiectau tai.
- Bod angen newid yr hen ffordd o feddwl ac o weithredu a dod o hyd i ddatrysiadau i'r materion cynllunio er mwyn hwyluso cartrefu pobl ifanc.
- Y trosglwyddwyd y stoc tai i gwmni preifat yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru ar y pryd.
- Er bod y polisi gosod newydd yn galluogi i'r Cyngor roi mwy o bwys ar gyswllt lleol, ei bod yn anghyfreithlon gwahaniaethu ar sail iaith yng Nghymru ar hyn o bryd.
- O ran y sylwadau ynglŷn â mewnlifiad a morgeisi, byddai'r Adran Tai ac Eiddo newydd yn rhoi ail-ystyriaeth i bopeth dros y flwyddyn nesaf.
- Bod y Gweinidog Tai wedi sôn am y posibilrwydd o gyflwyno rhaglen uchelgeisiol dros 30 mlynedd i ddi-garboneiddio tai preswyl presennol, a phetai hynny'n digwydd, byddai hefyd yn datrys y broblem o wresogi tai hŷn.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Strategaeth Dai i'w mabwysiadu.

9. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD 2018/19

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo a mabwysiadu Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2018/19 fel darlun clir, cytbwys a chywir o berfformiad y Cyngor yn ystod 2018/19.

Diolchodd yr Arweinydd i'r swyddogion hynny fu ynghlwm â'r gwaith.

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau unigol, nodwyd:-

- Heb arian ychwanegol, na fyddai'n bosib' caniatáu 80% o amser digyswllt i benaethiaid ysgolion ganolbwyntio ar faterion arweinyddiaeth yn y cynradd (prosiect Trawsnewid y Gyfundrefn Ysgolion – tudalen 77 o'r adroddiad), a bod yr egwyddor hwn, ynghyd ag egwyddorion eraill y prosiect, wedi codi o'r proffesiwn ei hun. Er na fyddai'n ymarferol bosib' gwireddu'r egwyddorion hyn, byddent yn fesur ar gyfer edrych ar sefyllfaoedd wrth iddynt godi yn yr ysgolion ar draws y sir.
- Bod y prosiect Lleihau'r Bwlch Cyflog Rhwng Merched a Dynion / Merched Mewn Arweinyddiaeth (tudalen 82 o'r adroddiad) yn benllanw dyhead i geisio denu mwy o ferched i swyddi uwch. Roedd y Cyngor yn dal i fyw gyda phenodiadau'r gorffennol ar hyn o bryd, ond mawr obeithid y byddai'r sefyllfa wedi newid ymhén 5-10 mlynedd. Fel rhan o'r prosiect, roedd rheolwyr sy'n ferched yn cael eu cyfweld er mwyn canfod beth yw'r rhwystrau iddynt gyrraedd swyddi uwch o fewn y Cyngor.

Nododd aelod fod angen i'r Cyngor siarad mwy gyda'r staff rheng flaen pan fo mater yn codi mewn pwyllgor craffu, neu gwynion yn cael eu derbyn. Hefyd, dylai'r Cyngor sefydlu llwybr gyrfaoedd ar gyfer ei staff, yn enwedig gofawyr, oherwydd yr anawsterau recriwtio gofawyr ar draws y sir.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad yn adlewyrchiad cywir, cytbwys a chllir o berfformiad y Cyngor yn ystod 2018/19, a'i fabwysiadu.

10. ADDASIAD I BOLISI TÂL Y CYNGOR 2019/20

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol adroddiad yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion i osod cyflog swydd newydd Pennaeth Tai ac Eiddo ar raddfa HS2 - £68,458 - £76,063, a thrwy hynny addasu'r Polisi Tâl ar gyfer 2019/20 i adlewyrchu'r ychwanegiad hwn.

PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion i osod cyflog swydd newydd Pennaeth Tai ac Eiddo ar raddfa HS2 - £68,458 - £76,063, a thrwy hynny addasu'r Polisi Tâl ar gyfer 2019/20 i adlewyrchu'r ychwanegiad hwn.

11. GOSOD CYFLOG SWYDD CYFARWYDDWR RHAGLEN BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol adroddiad yn gofyn i'r Cyngor, fel yr Awdurdod Cyfrifol am faterion cyflogaeth a chyllidol Bwrdd Uchelgaais Economaidd Gogledd Cymru, gymeradwyo penderfyniad y Bwrdd i osod lefel cyflog ar gyfer swydd Cyfarwyddwr Rhaglen ar raddfa o £96,304 i £106,304.

Rhoddodd yr Arweinydd, oedd hefyd yn Gadeirydd y Bwrdd Uchelgais, air o esboniad ynglŷn â beth fyddai rôl y Cyfarwyddwr Rhaglen.

Yn ystod y drafodaeth, mynegwyd pryderon gan aelodau unigol ar sail:-

- Perygl y byddai ardal y Gogledd Ddwyrain yn elwa mwy o'r Cynllun Twf na'r Gogledd Orllewin.
- Gofynion ieithyddol y swydd Cyfarwyddwr Rhaglen.
- Anfoesoldeb cynnig cyflog o dros £100,000 i ddeilydd y swydd, pan fo teuluoedd yng Ngwynedd yn ddibynol ar fanciau bwyd.
- Amheuaeth a fyddai'r Cynllun Twf yn llwyddo i ddenu buddsoddiad o £1b i Gogledd Cymru, fel sy'n cael ei honni.

Mewn ymateb i'r pryderon hyn, nodwyd fel a ganlyn:-

- Nad penderfyniad y Cyngor hwn oedd penodi i'r swydd Cyfarwyddwr Rhaglen, eithr penderfyniad trawsbleidiol y Bwrdd Uchelgais Economaidd, sef Arweinyddion y 6 Cyngor, mewn ymgynghoriad â chynrychiolwyr o'r sector breifat a'r colegau.
- Bod Cyfansoddiad y Bwrdd Uchelgais yn nodi bod rhaid cael consensws ar draws y 6 Cyngor i bob penderfyniad. Gan na chafwyd cytundeb ar y mater ieithyddol, y cyfaddawd y cytunwyd arno oedd bod y Gymraeg yn 'ddymunol' ar gyfer y swydd, a hefyd yn sgil ychwanegol petai dau ymgeisydd yn gyfartal ar ôl cyfweiliad.
- Bod Cyngor Gwynedd yn Awdurdod Lletyol i'r Bwrdd Uchelgais gan iddo ennill ei blwyf fel cyngor sy'n gwneud pethau'n iawn. Os am weithredu'n briodol yn yr achos hwn, roedd yn ofynnol iddo roi cymeradwyaeth ffurfiol i lefel cyflog swydd y Cyfarwyddwr Rhaglen gan ei fod uwchlaw £100,000.
- Bod pob un o'r Arweinyddion yn ymwybodol o'r cwestiwn ynglŷn â chyflogau uchel, ond gan y byddai'r Cyfarwyddwr Rhaglen yn gyfrifol am ddenu buddsoddiad ychwanegol o £1b gan y sector breifat (at y £280m fyddai'n dod o'r ddwy Lywodraeth), roedd yn gwbl hanfodol cael y person cywir i arwain y gwaith pwysig hwn o ledaenu twf ar draws y Gogledd.
- Bod unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r hyn mae'r Bwrdd Uchelgais yn ei wneud yn faterion i'w trafod eto.

Galwyd am bleidlais gofrestredig ar y cynnig.

Yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn, cofnodwyd y bleidlais ganlynol ar y cynnig:-

O blaid (45)

Y Cynghorwyr Craig ab Iago, Dylan Bullard, Stephen Churchman, Annwen Daniels, Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Aled Evans, Peter Antony Garlick, Simon Glyn, Gareth Wyn Griffith, Selwyn Griffiths, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, R. Medwyn Hughes, Nia Jeffreys, Peredur Jenkins, Aled Wyn Jones, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Charles W. Jones, Elin Walker Jones, Gareth Jones, Huw Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Beth Lawton, Dilwyn Lloyd, Dafydd Meurig, Dafydd Owen, Dewi Owen, Edgar Owen, W. Roy Owen, Nigel Pickavance, Dewi Wyn Roberts, Elfed P. Roberts, John Pughe Roberts, Mair Rowlands, Paul Rowlinson, Dyfrig Siencyn, Gareth Thomas, Hefin Underwood, Catrin Wager, Eirwyn Williams, Elfed Williams a Gruffydd Williams.

Yn erbyn (11)

Y Cynghorwyr , Anwen Davies, Alwyn Gruffydd, Louise Hughes, Aeron M.Jones, Elwyn Jones, Eric Merfyn Jones, Kevin Morris Jones, Gareth A.Roberts, Angela Russell, Gareth Williams ac Owain Williams.

Atal (2)

Y Cynghorwyr R.Glyn Daniels a Judith Humphreys.

Nododd y Cadeirydd fod y cynnig wedi cario.

PENDERFYNWYD bod y Cyngor, fel yr Awdurdod Cyfrifol am faterion cyflogaeth a chyllidol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, yn cymeradwyo penderfyniad y Bwrdd i osod lefel cyflog ar gyfer swydd Cyfarwyddwr Rhaglen ar raddfa o £96,304 i £106,304.

12. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2018/19

Croesawyd Dr Einir Young, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, i'r cyfarfod i gyflwyno adroddiad blynyddol y pwyllgor am 2018/19.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, diolchodd Dr Einir Young i'r Swyddog Monitro a'i dîm am eu harweiniad a'u gwaith cyson a pharhaus gyda'r Cyngor Sir a'r Cynghorau Cymuned.

Rhoddyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Cwestiynwyd yr angen am yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus o ystyried bod y rhiniog ar gyfer ymchwilio i gwynion Cod Ymddygiad mor uchel bellach. Nid mater bach oedd cyflwyno cŵyn a dylid anfon neges glir i'r Ombwdsmon bod angen gostwng y rhiniog.

Mewn ymateb, eglurwyd bod nifer y cwynion yn isel iawn o ystyried nifer y cynghorwyr tref, cymuned a sir ar draws Gwynedd, a bod hynny oherwydd bod yna batrwm cyffredin o barchu'r Cod Ymddygiad. Er hynny, nodwyd bod y Cod yn cael ei fabwysiadu gan bob Cyngor ac yn cael ei dderbyn gan bob aelod fel datganiad o ymrwymiad i safon uchel o ymddygiad yn llygaid y cyhoedd. Felly, roedd rôl gan bob un oedd yn ymwneud â'r gyfundrefn i arddel a hyrwyddo y safonau yma ac i herio ymddygiad amhriodol, boed yr Ombwdsmon yn ymwneud â'r mater ai peidio. Dyna'r neges fyddai'n cael ei harddel mewn hyfforddiant.

Diolchwyd i'r Dr Einir Young am ei chyflwyniad.

13. PENODI AELOD ANNIBYNNOL I'R PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynodd Swyddog Monitro adroddiad yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo argymhelliad y Panel Ymgynghorol i benodi Mr Hywel Eifion Jones yn aelod annibynnol ar Bwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd i wasanaethu am gyfnod o 6 mlynedd.

PENDERFYNWYD penodi Mr Hywel Eifion Jones yn aelod annibynnol ar Bwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd i wasanaethu am gyfnod o 6 blynedd.

14. PORTFFOLIOS CABINET

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad ar addasiadau i'r Cyfansoddiad yn sgil gweithrediad yr Arweinydd i ail-drefnu Portffolios Aelodau'r Cabinet, yn unol â Rhan 5 o'r Cyfansoddiad.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

15. ABSENOLDEB AELOD O'R CYNGOR

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd adroddiad yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo absenoldeb y Cyngorydd Linda Morgan o gyfarfodydd y Cyngor oherwydd gwaeledd, yn unol ag Adran 85 Deddf Llywodraeth Leol 1972, er mwyn ei galluogi i barhau i fod yn aelod o Gyngor Gwynedd.

PENDERFYNWYD cymeradwyo absenoldeb y Cyngorydd Linda Morgan o gyfarfodydd y Cyngor oherwydd yr amgylchiadau personol, yn unol ag Adran 85 Deddf Llywodraeth Leol 1972, gan ei galluogi i barhau i fod yn aelod o Gyngor Gwynedd.

16. ADOLYGIAD O GYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd adroddiad ar adolygiad o gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor, gan ofyn i'r Cyngor fabwysiadu'r dyraniad seddau yn Atodiad A i'r adroddiad a dirprwyo'r hawl iddo wneud penodiadau i'r pwyllgorau ar sail cydbwysedd gwleidyddol, ac yn unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol.

PENDERFYNWYD

- (A) Mabwysiadu'r dyraniad seddau a nodir yn yr atodiad i'r cofnodion hyn.
(B) Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd wneud penodiadau i'r pwyllgorau ar sail cydbwysedd gwleidyddol, ac yn unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol.

17. RHYBUDDION O GYNNIG

- (A) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cyngorydd Nia Jeffreys o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

“Galwn ar y Cyngor hwn i alw am annibyniaeth i Gymru gan anfon neges glir nad yw Cymru yn rhy fach na thlawd i sefyll ar ei thraed ac ein bod yn dyheu i wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar ein dyfodol yng Nghymru, ac nid yn Llundain.”

Mynegwyd cefnogaeth frwd i'r cynnig gan aelodau unigol ar sail:-

- Eu dymuniad i gyfrannu at adeiladu Cymru well, Cymru newydd a Chymru rydd.
- Eu gweledigaeth am Gymru ffyniannus, decach a mwy democrataidd; gwlad lle fyddai cyfiawnder cymdeithasol ar frig yr agenda ymhob agwedd o fywyd cyhoeddus a gwlad lle gwneid penderfyniadau am Gymru gan bobl Cymru.
- Nad oedd Cymru'n rhy fach nac yn rhy dlawd i fod yn annibynnol, a bod rhai o wledydd mwyaf llewyrchus, mwyaf cyfartal a hapusaf y byd yn wledydd bychain.
- Mai synnwyr cyffredin oedd dweud y dylai'r holl benderfyniadau am Gymru gael eu gwneud yng Nghymru, ac y byddai'n haws delio â phroblemau Cymru petai'r llywodraeth yn un i Gymru a bod yr holl sylw ar anghenion Cymru yn unig.

- Bod dyletswydd arnom i ymgyrchu am annibyniaeth er mwyn ein pobl ifanc a chenedlaethau'r dyfodol.
- Gan fod Cymru ar lwybr llithrig iawn i adael y Gymuned Ewropeaidd, bod brys gwirioneddol i gael rhagor o bwerau i Gymru, grymoedd dros adnoddau naturiol Cymru fel cynhyrchu ynni ac adnoddau dŵr, rhagor o bwerau economaidd, datganoli darlledu, yr heddlu a'r gyfundrefn gyfiawnder.
- Gan fod y Deyrnas Gyfunol yn newid yn sylfaenol, gyda'r Alban yn paratoi ar gyfer ail refferendwm ar annibyniaeth, ac ail-lunio lwerddon yn bosiblwydd real, ei bod yn hollbwysig nad oedd Cymru yn cael ei gadael ar ôl.
- Nad oedd yr ateb i'r heriau economaidd oedd yn wynebu Cymru i'w cael yn Llundain, nac ar lefel Prydain, a'i bod yn amlwg nad oedd gwerthoedd Cymru yn cael eu hadlewyrchu'n San Steffan na pholisïau llywodraeth honno yn cael eu gosod er budd pobl Cymru.
- Na ellid ddibynnu ar bobl eraill i wyrdroi sefyllfa drychinebus ein cenedl, a bod raid i bawb weithio gyda'i gilydd i greu cenedl well.
- Bod 50 o wledydd wedi gadael yr Ymerodraeth Brydeinig dros y 50 mlynedd ddiwethaf a phob un wedi cael yr un dadleuon yn erbyn annibyniaeth ag oedd yn cael eu rhoi yn achos Cymru.
- Y dymunid gweld cymdeithas deg, gytbwys, fyddai'n gweithio i gefnogi'r bregus – cymdeithas heb hiliaeth a lle byddai pob unigolyn yn cael y cyfle i fyw i'w lawn botensial, waeth beth fyddai ei dras, ei iaith, ei grefydd neu gyfoeth.
- Gyda 40 allan o tua 650 o seddau'n unig, nid oedd gan Gymru gyfle i lywio'r drafodaeth yn San Steffan nac i wrthwynebu, er enghraifft, y dreth ystafell wely, y cymal trais rhywiol, carchariad mewnfudwyr am dymor di-ben draw na chredyd cynhwysol.
- Nad oedd bod yn rhan o'r Deyrnas Gyfunol erioed wedi gweithio i Gymru a bod Cymru'n dlotach na gweddill Prydain, gyda 29% o blant Cymru yn cael eu magu mewn tlodi, a 20% o bensiynwyr Cymru a 39% o bobl anabl Cymru yn byw mewn tlodi.
- Bod 10 o'r 11 rhanbarth tlotaf yn Ewrop yn y Deyrnas Gyfunol a disgwyliad oes pobl Cymru 7-10 mlynedd yn is na'r rhannau cyfoethocaf o Brydain.
- Bod Cynnyrch Domestig Gros Cymru yn £22,000 y person tra bo'r ffigur cyfatebol ar gyfer Prydain yn £42,500, a gwledydd megis lwerddon a Gwlad yr Ia uwchlaw £70,000. Golygai hynny bod Cymru yn cymharu â gwledydd Dwyrain Ewrop, a byddai'r sefyllfa'n debygol o waethygu unwaith y byddai'r arian strwythurol a dderbynnid o Ewrop yn diflannu.
- Bod Cymru'n ddibynnol iawn ar y sector amaeth, ac yn fwy dibynnol na gweddill Prydain ar y sector cynhyrchu, a byddai'r sectorau hynny'n sicr o ddiodef yn enbyd yn sgil ymadawiad Prydain o'r Undeb Ewropeaidd.
- Nad oedd Cymru'n wlad dlawd mewn llawer ystyr. Roedd yn cynhyrchu dwywaith cymaint o drydain ag yr oedd yn ei ddefnyddio; roedd ganddi gyflenwad digonol o ddŵr ac roedd hefyd yn hunan-gynhaliol o ran bwyd. Er hynny, nid oedd gan Gymru bwerau dros ei chyflenwadau dŵr na thrydan ei hun ac roedd yr arian oedd yn cael ei gynhyrchu mewn rhenti gan y tyrbeini gwynt ar wely'r môr o amgylch arfordir Cymru yn mynd i boced y Frenhines.
- Y dymunid i Gymru fod yn rhan o deulu rhyngwladol Ewrop, fel gwledydd bychain eraill megis Latfia, Estonia, lwerddon, Lithwania, ayb.
- Bod y system wleidyddol Brydeinig yn chwalu a bod angen i Gymru fanteisio ar y don bresennol o chwilfrydedd mewn annibyniaeth.
- Y gwrthodid y syniad nad oedd Cymru'n ddigon da i redeg ei threfn ei hun ac roedd diffyg hyder pobl yn y cysyniad o annibyniaeth yn ganlyniad canrifoedd o orthrwm ac imperialaeth Brydeinig.
- Y mawr hyderid y byddai gorymdaith 'Yes Cymru' yng Nghaernarfon ar y 27ain o Orffennaf yn ysgogiad i bobl ifanc gymryd rhan yn y drafodaeth yma.

Nododd aelod, er ei fod yn llwyr gefnogol i amcanion mudiad 'Yes Cymru', ei fod o'r farn y dylid apelio ar y trefnwyr i fabwysiadu'r slogan 'Ie Cymru' fel un swyddogol, oherwydd pryder bod y slogan Saesneg yn gwanychu ein statws fel cenedl.

Nododd aelod arall, er ei fod yntau'n llwyr gefnogol i'r holl ddadleuon a roddwyd o blaid y cynnig, mai digon hawdd oedd dweud pader wrth berson ac mai'r tu allan i ddrws y Siambr roedd angen pregethu a chael pobl i newid eu meddyliau.

Gwrthwynebwyd y cynnig gan rai aelodau eraill ar sail:-

- Er y gydnabyddiaeth bod Brexit yn llanast' llwyr, dylid gochel rhag rhuthro i mewn i annibyniaeth gan y byddai hynny'n creu llanast' gwaeth.
- Nad oedd gan Gymru sylfaen gynhyrchu. Roedd economi Cymru'n rhacs a'i chyfoeth yn arwynebol a byddai'n amhosib' iddi oroesi fel gwlad ar ei phen ei hun.
- Petai Cymru'n ceisio mynd yn ôl i mewn i Ewrop fel gwladwriaeth genedlaethol annibynnol, ni fyddai'n bosib' iddi elwa o'r un fargen ac mae'n fwynhau ar hyn o bryd.
- Yn hytrach nag ymgyrchu am annibyniaeth i Gymru, dylai pawb fod yn ymuno i frwydro yn erbyn Brexit.
- Nad oedd Llywodraeth Cymru erioed wedi llwyddo i wneud buddsoddiad ystyrion i'r Gogledd o Ferthyr Tudful, a gan y byddai annibyniaeth yn sicr o arwain at Lywodraeth dlotach yng Nghaerdydd, byddai yna lai fyth o arian i'w fuddsoddi ar draws Cymru.
- Er y cytunid bod angen i Gymru gael mwy o ymreolaeth, mwy o ddatganoli gwasanaethau a mwy o bwerau, byddai torri'n llwyr oddi wrth weddill Prydain yn dinistrio'r Deyrnas Gyfunol.
- Bod yna 60 Aelod Cynulliad yng Nghaerdydd eisoes. Roedd Llywodraeth Cymru yn awyddus i gael 60 arall, ynghyd â Senedd leuenctid, ond o ble roedd yr arian am ddod ar gyfer hyn i gyd?

Awgrymodd aelod fod angen undod a democratiaeth yn y Siambr hon i ddechrau cyn edrych ar y darlun mawr.

Nododd aelod arall na chredai y dylai'r Cyngor fod yn trafod materion fel hyn, ac iddi gael ei hethol i wasanaethu pobl ei chymuned ac i sicrhau'r gorau i bobl Gwynedd.

Ychwanegodd aelod arall na allai bleidleisio y naill ffordd na'r llall ar y cynnig gan nad oedd wedi cael mandad gan y bobl roedd yn eu cynrychioli.

Galwyd am bleidlais gofrestrdig ar y cynnig.

Yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn, cofnodwyd y bleidlais ganlynol ar y cynnig:-

O blaid (42)

Y Cynghorwyr Craig ab Iago, Dylan Bullard, Annwen Daniels, R.Glyn Daniels, Anwen Davies, Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Aled Evans, Peter Antony Garlick, Simon Glyn, Gareth Wyn Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes, Judith Humphreys, Nia Jeffreys, Peredur Jenkins, Aled Wyn Jones, Berwyn Parry Jones, Charles W.Jones, Elin Walker Jones, Gareth Jones, Huw Wyn Jones, Kevin Morris Jones, Cai Larsen, Dafydd Meurig, Dafydd Owen, Edgar Wyn Owen, Dewi Wyn Roberts, Elfed P.Roberts, Gareth A.Roberts, Mair Rowlands, Paul Rowlinson, Dyfrig

Siencyn, Gareth Thomas, Hefin Underwood, Catrin Wager, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gruffydd Williams ac Owain Williams.

Yn erbyn (4)

Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Dylan Fernley, Louise Hughes ac R.Medwyn Hughes.

Atal (5)

Y Cynghorwyr Anne Lloyd Jones, Keith Jones, Beth Lawton, Dewi Owen a Nigel Pickavance.

Nododd y Cadeirydd fod y cynnig wedi cario.

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig.

- (B) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Elwyn Edwards o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

“Bod y Cyngor yn gofyn i'r Gwasanaeth Tai ddarparu gwybodaeth Rhestrau Aros am dai rhent cymdeithasol at ddibenion asesu angen perthnasol ar sail pob ardal, yn hytrach na'r niferoedd a gyflwynir o dros Wynedd i gyd ar gyfer pob ardal.”

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig.

18. YMATEB I RYBUDDION O GYNNIG BLAENOROL

Cyflwynwyd, er gwybodaeth –

- (A) Llythyr gan y Llywodraeth Cymru mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Sion Jones i gyfarfod 7 Mawrth, 2019 ynglŷn â gwerthu cŵn bach drwy drydydd parti.
- (B) Llythyrau gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Catrin Wager i gyfarfod 7 Mawrth, 2019 ynglŷn â'r cynnig ar newid hinsawdd.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00yp a daeth i ben am 3.50yp.

CADEIRYDD

ATODIAD

A	Plaid Cymru	Annibynnol	Llais Gwynedd	Annibynnol Unedig	Aelod Unigol	Cyfanswm
Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi	10	5	2	1		18
Pwyllgor Craffu Cymunedau	10	5	2	0	1	18
Pwyllgor Craffu Gofal	10	5	1	1	1	18
Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu	10	5	1	1	1	18

B	Plaid Cymru	Annibynnol	Llais Gwynedd	Annibynnol Gwynedd	Unedig	Aelod Unigol	Cyfanswm
Gwasanaethau Democraataidd	8	5	1	1			15
Cynllunio	8	4	1	1		1	15
Trwyddedu Canolog	8	4	1	1		1	15
Iaith	8	5	1	0		1	15
Penodi Prif Swyddogion	8	5	2	0			15
Apelau Cyflogaeth	4	2	1	0			7
Nifer y seddau	84	45	13	6		6	154

C	Plaid Cymru	Annibynnol	Llais Gwynedd	Annibynnol Gwynedd	Unedig	Aelod Unigol	Cyfanswm
Pensiynau	4	2	0	0		1	7
Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol	6	3	1	1			11
CYSAG	4	3	0	0			7
Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd	5	2	1	0			8
Cyfanswm y seddau	103	55	15	7		7	187

Eitem 8

CYFARFOD	CYNGOR LLAWN
DYDDIAD	3 HYDREF 2019
TEITL	ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD 2018-19
PWRPAS	CYFLWYNO'R ADRODDIAD I'R CYNGOR LLAWN
AWDUR	GERAINT OWEN, PENNAETH CEFNOGAETH GORFFORAETHOL
AELOD CABINET	CYNGHORYDD DYFRIG SIENCYN ARWEINYDD Y CYNGOR
ARGYMHELLIAD	DERBYN YR ADRODDIAD

1.0 CEFNDIR

- 1.1 Mae Adroddiad Gwella Blynyddol 2018-19 Cyngor Gwynedd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi'r gwaith archwilio a wnaed yn y Cyngor hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ers cyhoeddi'r adroddiad diwethaf ym mis Mawrth 2018.
- 1.2 Dylid pwysleisio nad adolygiad cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Cyngor mo'r adroddiad hwn.
- 1.3 Ar sail y gwaith a gyflawnwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, a rheoleiddwyr eraill, mae'r Arolygydd Cyffredinol yn nodi a yw o'r farn y bydd y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2019-20.
- 1.4 Ym marn yr Archwilydd "Mae'r Cyngor yn bodloni ei ofynion statudol o ran gwelliant parhaus" gan ychwanegu "yn seiliedig ar y gwaith, ac yn gyfyngedig i'r gwaith a gyflawnwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r rheoleiddwyr perthnasol, cred yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio a gofynion Mesur Llywodraeth Leol (2009) yn ystod 2019-20.
- 1.5 Mae'r Adroddiad yn datgan na wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol gyflwyno unrhyw argymhellion ffurfiol i wella ond byddwn yn nodi iddo wneud rhai cynigion ar gyfer gwella sy'n ymddangos yn yr adroddiad.
- 1.6 Bydd swyddogion o Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflwyno'r adroddiad i'r Aelodau gan dynnu sylw at y prif bwyntiau.
- 1.7 Bydd cyfle i Aelodau ofyn cwestiynau i swyddogion Swyddfa Archwilio Cymru ar sail cynnwys yr adroddiad.

2.0 ARGYMHELLIAD

Gofynnir i Aelodau dderbyn yr adroddiad.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro

Rwy'n nodi nad yw'r Swyddfa Archwilio wedi canfod angen i wneud argymhellion gwella ffurfiol i'r Cyngor. Yng ngoleuni yr heriau sydd yn wynebu'r Cyngor ac a gydnabyddir yn yr adroddiad mae hyn yn neges gadarnhaol.

Y Pennaeth Cyllid

Nodwn y rhaglen waith sydd wedi deillio o'r Asesiad Risg a Sicrwydd. Byddwn yn cydweithredu gyda'r archwilwyr wrth iddynt gynnal y gwaith yma.

Mae'r sylw rhoddir i agweddau ariannol yn Arddangosyn 1 ar tudalen 6 o'r adroddiad, ac yn y Llythyr Archwilio Blynyddol sy'n Atodiad 2, yn adlewyrchu'n bennaf ar archwiliad o gyfrifon 2017-18. Erbyn hyn, mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi craffu a chymeradwyo cyfrifon 2018-19 ac adroddiad perthnasol archwilwyr Deloitte ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru. Tra mae'r wybodaeth ariannol gerbron yma'n hanesyddol, mae'n drosolwg cyffredinol calonogol, a credaf fod y sefyllfa yma'n parhau'n dderbyniol, er wrth gwrs rydym yn cynllunio ar gyfer yr her ariannol allasai bob awdurdod lleol ei wynebu yn y tymor canolig.



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Adroddiad Gwella Blynyddol

Cyngor Gwynedd

Cyhoeddwyd: Awst 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1358A2019-20

Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Alan Hughes a Jeremy Evans dan gyfarwyddyd Huw Rees.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn ceisio darparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Cynnwys

Adroddiad cryno

Gwaith archwilio perfformiad 2018-19	4
Mae'r Cyngor yn cyflawni ei ofynion statudol o ran gwelliant parhaus, yn yr un modd â phob cyngor yng Nghymru, mae'n wynebu heriau wrth symud ymlaen	4
Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella	4
Gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu yr adroddwyd arno yn ystod 2018-19	6

Atodiadau

Atodiad 1 – Statws yr adroddiad	14
Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol	15
Atodiad 3 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2018-19	18

Adroddiad cryno

Gwaith archwilio perfformiad 2018-19

- 1 I benderfynu ar ystod a natur y gwaith y byddem yn ei wneud yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom ystyried faint yr ydym yn ei wybod eisoes o'r holl waith archwilio ac arolygu blaenorol ac o ffynonellau gwybodaeth eraill, gan gynnwys dulliau adolygu a gwerthuso Cyngor Gwynedd (y Cyngor) ei hun. Ar gyfer 2018-19, gwnaed gwaith asesu gwelliant, prosiect asesu risg a sicrwydd, a gwaith ar y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ym mhob cyngor. Mewn rhai cynghorau, gwnaethom ni ategu'r gwaith hwn ag archwiliadau lleol yn seiliedig ar risg, a nodwyd yn y Cynllun Archwilio ar gyfer 2018-19.
- 2 Mae'r gwaith a wnaed ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol (AGB) diwethaf, gan gynnwys gwaith y rheoleiddwyr perthnasol, wedi'i nodi yn [Arddangosyn 1](#).

Mae'r Cyngor yn cyflawni ei ofynion statudol o ran gwelliant parhaus, yn yr un modd â phob cyngor yng Nghymru, mae'n wynebu heriau wrth symud ymlaen

- 3 Yn seiliedig ar y gwaith, ac yn gyfyngedig i'r gwaith, a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, cred yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (2009) yn ystod 2019-20. Fodd bynnag, mae pob cyngor yn wynebu pwysau ariannol sylweddol a fydd yn galw am sylw parhaus yn y tymor byr a chanolig er mwyn eu galluogi i fod mewn sefyllfa ariannol sefydlog a chynaliadwy.

Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella

- 4 O ystyried yr amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a'r heriau y mae'n eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na byddem yn dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:
 - wneud cynigion ar gyfer gwella – os gwneir cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwirio yr hyn sy'n digwydd;
 - gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os gwneir argymhelliad ffurfiol, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
 - cynnal arolygiad arbennig, cyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
 - argymhell i weinidogion Llywodraeth Cymru eu bod yn ymyrryd mewn rhyw ffordd.

- 5 Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol. Fodd bynnag, rydym ni wedi gwneud nifer o gynigion ar gyfer gwella ac ailadroddir y rhain yn yr adroddiad hwn. Byddwn yn monitro cynnydd o'i gymharu â'r cynigion hyn ac argymhellion perthnasol a wnaed yn ein hadroddiadau cenedlaethol (**Atodiad 3**) yn rhan o'n gwaith asesu gwelliant.

Gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu yr adroddwyd arno yn ystod 2018-19

Arddangosyn 1: gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu yr adroddwyd arno yn ystod 2018-19

Dyddiad cyhoeddi	Disgrifiad byr	Casgliadau	Cynigion ar gyfer gwella
Chwefror 2019	<p>Asesiad Risg a Sicrwydd Prosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu pan fydd angen rhagor o waith archwilio yn y dyfodol o ran y risgiau i'r Cyngor:</p> <ul style="list-style-type: none"> • rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau; • rhoi trefniadau ar waith i sicrhau gwelliannau parhaus; a • gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu amcanion llesiant a chymryd camau i'w cyrraedd. 	<p>Yn deillio o'r prosiect hwn, nodwyd gennym y pynciau canlynol i'w cynnwys yn ein rhaglen archwilio yn y Cyngor ar gyfer 2019-20:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Asesiad Risg a Sicrwydd: i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu pan fydd angen rhagor o waith archwilio yn y dyfodol o ran y risgiau i'r Cyngor yn rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau • Adolygiad o gynaliadwyedd ariannol y Cyngor (thema genedlaethol a arolygwyd yn y 22 o gynghorau); • Archwiliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, pwyslais ar Dimau Maes; • Adolygiad o weithio gydag eraill, mae'r Cyngor yn rhan o sawl partneriaeth, trefniadau gweithio ar y cyd, cydwasanaethau a modelau cyflawni eraill; ac • Adolygiad o Ffordd Gwynedd. Myfyrio ar waith o ran sut y mae Ffordd Gwynedd wedi'i ymgorffori, cyflawniadau hyd yn hyn a sut y mae'r Cyngor yn dysgu o'r rhaglen i'w helpu i gyflawni ei nodau. 	Amherthnasol

Tud. 26

Dyddiad cyhoeddi	Disgrifiad byr	Casgliadau	Cynigion ar gyfer gwella
Mehefin 2019	<p>Archwiliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015</p> <p>Archwiliad o'r graddau y mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth sefydlu gwasanaeth ieuencid newydd ledled Gwynedd i gefnogi pobl ifanc i ddysgu a datblygu sgiliau at ddibenion personol, emosiynol, cymdeithasol ac addysgol i fodloni ei amcan llesiant - Mwynhau bywydau hapus, iach a diogel.</p>	<p>Mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol ag elfennau o'r egwyddor datblygu cynaliadwy ond mae angen gwneud mwy o waith i sefydlu'r pum ffordd o weithio yn llawn</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Cyngor wedi ailfodelu'r gwasanaeth ieuencid i'w wneud yn fwy cynaliadwy, ond mae darpariaeth y gwasanaeth wedi'i hysgogi'n bennaf gan gyfyngiadau ariannol yn hytrach na dealltwriaeth o'r galw hirdymor am y gwasanaeth • Mae'r Cyngor yn cydnabod y buddion ataliol y mae gwasanaeth ieuencid cynaliadwy a hawdd ei ddefnyddio yn eu darparu, ond gallai wneud mwy i ddeall achosion sylfaenol y problemau y mae'r gwasanaeth yn ceisio'u hatal. • Er gwaethaf rhai enghreifftiau o integreiddio, ni all y Cyngor ddangos yn eglur ei ystyriaeth o sut y mae'r cam yn cyfrannu at ei amcanion llesiant ehangach, amcanion ei bartneriaid, na'r nodau llesiant cenedlaethol. • Ceir tystiolaeth o gydweithredu cynyddol ar lefel weithredol ac o arfarnu gwerth partneriaethau hirsefydlog, ond roedd y dyraniad o arian y gronfa drawsnewid yn adweithiol a heb ei gynllunio'n strategol, gan gyfaddawdu gwerth o bosibl. • Ymgynghorodd y Cyngor yn eang â defnyddwyr gwasanaeth wrth ailfodelu ei wasanaeth ieuencid, 	Dewisodd y Cyngor gymryd nifer o gamau o ganlyniad i'r arolwg ac mae manylion y rhain wedi'u nodi yn ein hadroddiad llawn.

Dyddiad cyhoeddi	Disgrifiad byr	Casgliadau	Cynigion ar gyfer gwella
		ond, roedd gwendid allweddol yn y ffordd yr oedd yn hysbysu pobl o'r newid yn y gwasanaeth..	
Tachwedd 2018	<p>Llythyr archwilio blynyddol 2017-18</p> <p>Llythyr yn crynhoi'r negeseuon allweddol a gyfyd o gyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol ar gael yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau o ran adrodd ariannol a defnyddio adnoddau; • Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei ddefnydd o adnoddau; • Hyd yn hyn, nid yw fy ngwaith ardystio ceisiadau a ffurflenni grant ar ran yr Archwilydd Cyffredinol wedi nodi materion sylweddol a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2018-19 neu systemau ariannol allweddol; ac • Mae gan y Cyngor hanes o reoli ei gyllid, ond bydd yr her ariannol yn parhau yn y tymor canolig. 	Dim
Cynllunio ac adrodd ar welliant			
Gorffennaf 2018	<p>Archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru o'r cynllun gwella blynyddol</p> <p>Adolygiad o gynlluniau cyhoeddedig y Cyngor ar gyfer cyflawni amcanion gwella.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o ran cynllunio gwelliant. 	Dim
Tachwedd 2018	<p>Archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru o'r asesiad blynyddol o berfformiad</p> <p>Adolygiad o asesiad cyhoeddedig o berfformiad y Cyngor.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o ran adrodd ar welliant. 	Dim

Dyddiad cyhoeddi	Disgrifiad byr	Casgliadau	Cynigion ar gyfer gwella
Adolygiadau gan gyrrff arolygu a rheoleiddio			
Estyn	Ni chynhaliodd Estyn arolygiad o Gyngor Gwynedd yn y cyfnod hwn, ond cynhaliwyd sawl arolygiad ysgol. Mae manylion llawn ar gael ar wefan Estyn https://www.estyn.llyw.cymru/	Amherthnasol	Amherthnasol
Arolygiaeth Gofal Cymru Awst 2018	Arolygiad o Wasanaethau Plant Canolbwyntiodd yr arolygiad hwn ar effeithiolrwydd gwasanaethau'r awdurdod lleol a'r trefniadau i helpu ac amddiffyn plant a'u teuluoedd.	Trosolwg o'r Canfyddiadau <ul style="list-style-type: none"> Gwelsom fod gan wasanaethau plant Gwynedd gryfderau sylweddol ac roedd ganddynt weithlu ymrwymedig a chadarn sy'n ymateb i lwyth gwaith cynyddol o ran cymhlethdod a maint, ond sy'n hawdd ei drin. Roedd staff yn dangos ymroddiad ac ymrwymiad i hyrwyddo'r canlyniadau gorau ar gyfer plant a theuluoedd; Mae'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn faes sydd angen ei ddatblygu'n barhaus. Dim ond yn ddiweddar yr oedd yr awdurdod wedi gweithredu gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, ac roedd yn cydnabod bod angen sefydlu a datblygu'r gwasanaeth ymhellach – wedi'i lywio gan wersi a ddysgwyd o arferion gweithredol. Mae angen gwneud gwaith wrth ddatblygu sut caiff pobl wybodaeth am y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gan yr adran, yr hyn y gallant ei ddisgwyl a'r hyn sydd ar gael yn y gymuned; 	Meysydd i'w Datblygu Trefniadau mynediad: Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth <ol style="list-style-type: none"> Mae angen mynd i'r afael â bylchau a gydnabyddir o ran atal ac ymyrryd yn gynnar, a chryfhau'r cynnig rhagweithiol o gymorth wrth ddatblygu cysylltiadau cryfach gyda gwasanaethau cymunedol, cryfhau'r ffordd y maen nhw'n cyfeirio pobl at asiantaethau, a datblygu ystod o wasanaethau hygyrch sydd ar gael. Mae angen i ddatblygiadau diweddar o ran gwybodaeth, cyngor a chymorth gael eu hategu gan waith parhaus i hwyluso atgyfeiriadau priodol ac amserol a chyfranogiad gydag asiantaethau partner.

Dyddiad cyhoeddi	Disgrifiad byr	Casgliadau	Cynigion ar gyfer gwella
		<ul style="list-style-type: none"> • Ymatebwyd i atgyfeiriadau mewn modd amserol, ac ar y cyfan, gwelsom fod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn effeithiol, gyda sgysiau gan weithwyr ar ddyletswydd o ran cymhwysedd yn cael eu cynnal yn unol â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Maes sydd angen ei ddatblygu ymhellach yw'r cynnig rhagweithiol o roi cymorth, gan ganolbwyntio ar gryfhau'r cysylltiadau gyda'r trydydd sector a gwasanaethau ataliol; • Mae strategaeth cefnogi teuluoedd Cyngor Gwynedd yn cael ei datblygu, ac mae angen dull gwell o adnabod anghenion / anghenion nad ydynt wedi cael eu diwallu yn y sir. Dylid rhoi blaenoriaeth i ddatblygu'r strategaeth hon a chryfhau gwasanaethau ataliol ar gyfer pobl ifanc a theuluoedd. Roedd bylchau wedi eu cydnabod o ran atal ac ymyrryd yn gynnar ar draws Gwynedd, ac roedd diffyg ymwybyddiaeth ymhlith staff o wasanaethau cymorth; • Ar y cyfan roedd asesiadau'n cael eu cynnal mewn modd amserol, yn ymateb i anghenion y plant sy'n dod i'r amlwg ac roeddent o ansawdd da. Gwelsom enghreifftiau o asesiadau a oedd yn canolbwyntio ar ganlyniadau'r plant, gyda dadansoddiad eglur wrth gydbwysu risgiau, cryfderau a rhwystrau. Pan oedd yr asesiad yn nodi angen cymwys, roedd cynllun gofal a chymorth yn cael ei ddatblygu mewn da bryd. Gwelwyd bod ansawdd y cynlluniau gofal a chymorth yn anghyson, ac nid oedd asesiadau'n cael eu 	<p>3. Mae angen datblygu adnodd ar gyfer staff gwybodaeth, cyngor a chymorth er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau lleol iddynt er mwyn eu galluogi i ymgymryd â'u dyletswyddau o ran rhoi gwybodaeth yn effeithiol.</p> <p>4. Mae angen sicrhau bod cronolegau yn cael eu defnyddio a'u diweddarau'n gyson er mwyn cynorthwyo ymarferwyr i fynd at wybodaeth bwysig a pherthnasol am achosion mewn da bryd er mwyn hwyluso'r gwaith o wneud penderfyniadau yn effeithiol.</p> <p>Asesiad</p> <p>5. Mae'n rhaid diweddarau asesiadau yn dilyn newidiadau sylweddol mewn amgylchiadau, er mwyn galluogi dull effeithiol o gynllunio gofal, a gwell dull o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a sicrhau canlyniadau gwell iddynt.</p>

Dyddiad cyhoeddi	Disgrifiad byr	Casgliadau	Cynigion ar gyfer gwella
		<p>diweddar fel mater o drefn pan oedd newid sylweddol wedi bod o ran amgylchiadau unigolion neu deuluoedd er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith o gynllunio gofal a rhoi cymorth yn fwy effeithiol;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dywedodd staff gwaith cymdeithasol wrth arolygwyr fod amseroldeb ac ansawdd cyfraniadau partneriaid i asesiadau yn dda ar y cyfan. Gwnaeth arolygwyr weld rywfaint o waith partneriaeth aml-asiantaeth effeithiol, ac ymrwymiad i gefnogi teuluoedd a chynnal plant yn eu teuluoedd. Gwelsom enghreifftiau lle roedd cyfraniad dwys gan weithiwr cymdeithasol y plentyn, tîm ar ffiniau gofal y gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau partner wedi arwain at ganlyniadau da i'r plentyn a'i deulu; • Gwelsom dystiolaeth fod cynlluniau gofal a chymorth yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ar y cyd â phlant, teuluoedd ac asiantaethau partner. Mae angen cryfhau'r cynlluniau gofal a chymorth er mwyn galluogi plant, pobl ifanc a theuluoedd i gael dealltwriaeth fwy eglur o'r penderfyniadau a wneir, ac mewn ffordd sy'n hawdd i'w dilyn; • Roedd Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal yn cael eu cynnal yn unol â gofynion; ond mae angen gwneud gwaith i gryfhau'r trefniadau adolygu ar gyfer plant a phobl ifanc, gan greu profiadau gwell o gynnal adolygiadau. Nid oedd rhai plant a phobl ifanc yn gweld eu proses adolygu neu lwybr asesu mewn modd cadarnhaol; 	<p>Gofal a Chymorth a Chynllunio Llwybrau</p> <ol style="list-style-type: none"> 6. Mae angen datblygu ymhellach y trefniadau adolygu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, a chynnig cyfleoedd cyson i blant a phobl ifanc gyfarfod â'r swyddog adolygu annibynnol cyn adolygiad. Mae meysydd y mae angen canolbwyntio arnynt yn cynnwys y canlyniadau y mae'r plentyn yn dymuno eu cyflawni, ystyried dymuniadau'r plentyn/person ifanc o ran lleoliad yr adolygiad, a gwelliannau o ran cofnodi anghenion y plentyn, a gwaith uniongyrchol a wnaed eisoes. 7. Mae angen datblygu ymhellach y gwaith o gynllunio gofal ac ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a gofalwyr er mwyn sicrhau bod cynlluniau'n cael eu datblygu ar y cyd yn gyson. Mae angen cefnogi plant, pobl ifanc a gofalwyr i ddeall y penderfyniadau sy'n sail i gynlluniau gofal a chymorth. 8. Mae angen cryfhau trefniadau maethu a chydymffurfio â rheoliadau. Dylid rhoi blaenoriaeth i recriwtio gofalwyr maeth

Dyddiad cyhoeddi	Disgrifiad byr	Casgliadau	Cynigion ar gyfer gwella
		<ul style="list-style-type: none"> • Roedd gwasanaethau plant Gwynedd yn rhoi blaenoriaeth uchel i gadw'r plant yn ddiogel. Roedd gweithdrefnau'n gadarn ac yn amserol; roedd y staff yn hyderus wrth ddefnyddio'r gweithdrefnau, ac yn ymfalchïo yn y canlyniadau cadarnhaol a gyflawnwyd ar gyfer plant trwy eu gwaith. Mae Cyngor Gwynedd yn ceisio gwella perfformiad ymhellach trwy ganolbwyntio ar ymgysylltu â theuluoedd wrth ddatblygu 'model effeithiol o amddiffyn plant'; • Gwelsom arweinyddiaeth a llywodraethu cadarn yng Nghyngor Gwynedd. Mae'r bwrdd rhianta corfforaethol yn uchelgeisiol wrth ddatblygu'r canlyniadau gorau i blant sy'n derbyn gofal, ac mae'r Cyngor i gyd yn cefnogi'r bwrdd yn dda; • Roedd pennaeth y gwasanaeth yn arwain yr adran gwasanaethau plant yn hyderus ac yn gryf, gan ddangos ymrwymiad tuag at ddatblygu'n barhaus. Lleolir arbenigedd gwaith cymdeithasol proffesiynol ar yr haen hon o'r sefydliad. Roedd y tîm uwch-reolwyr yn creu diwylliant gwaith cadarnhaol, uchelgeisiol a chefnogol. Roedd uwch-reolwyr yn y gwasanaethau i blant yn llawn gwybodaeth, yn brofiadol ac yn cynnig sefydlogrwydd ar gyfer y gweithlu. Bu newidiadau yn haen rheolwr y tîm gyda rhai rheolwyr yn newydd i'w rôl; • Ar y cyfan, roedd plant, pobl ifanc a theuluoedd yn gadarnhaol o ran y cymorth a ddarperir gan Gyngor Gwynedd. Dywedodd pobl ifanc wrthym eu bod yn 	<p>fel y gellir cynnig gwell dewis o ran lleoliadau.</p> <p>Arweinyddiaeth a Llywodraethu</p> <p>9. Mae angen datblygu dulliau sicrhau ansawdd gwell ar draws yr adran er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir ac a gomisiynir ar gyfer plant a theuluoedd yn amserol, o ansawdd da ac yn cyflawni canlyniadau da.</p>

Dyddiad cyhoeddi	Disgrifiad byr	Casgliadau	Cynigion ar gyfer gwella
		<p>gwerthfawrogi gonestrwydd yn anad dim, ac roeddent yn ystyried rôl y cynghorwyr personol yn hanfodol wrth eu cynorthwyo i dyfu i fod yn oedolion;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd cynnig gweithredol y Gymraeg wedi'i ymwreiddio'n llawn yn yr awdurdod lleol; ac • Mae angen cryfhau'r trefniadau maethu er mwyn sicrhau bod plant yn cael profiadau cadarnhaol yn gyson, a chanlyniadau gwell pan fyddant yn derbyn gofal. Mae argaeledd gofalwyr maeth a lleoliadau addas yn faes heriol, o ystyried proffil poblogaeth Gwynedd o blant sy'n derbyn gofal - gyda chynnydd o ran y plant sy'n derbyn gofal sy'n byw gyda rhieni ac unigolion cysylltiedig, ac anawsterau o ran dod o hyd i leoliadau addas ar gyfer plant sydd ag anghenion dwys. 	

Atodiad 1

Statws yr adroddiad

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol sy'n edrych i'r dyfodol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae gan awdurdodau gwella (a ddiffinnir yn gynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub) ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer [eu] swyddogaethau.'

Mae'r asesiad gwella blynyddol yn ystyried y tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Yr asesiad hefyd yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae staff Swyddfa Archwilio Cymru, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, yn llunio'r adroddiad gwella blynyddol. Mae'r adroddiad yn cyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 24 y Mesur, trwy grynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol a gyhoeddir ar gyfer pob awdurdod. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi (o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17) a yw'n credu bod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwelliannau o dan adran 15.

Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd, dan rai amgylchiadau, gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), a gaiff eu hadrodd i'r awdurdod a Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Gweithgaredd ategol pwysig i'r Archwilydd Cyffredinol yw cydlynu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol yr holl reoleiddwyr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

Atodiad 2

Llythyr Archwilio Blynyddol

Dilwyn Williams
Y Cyng. Dyfrig Siencyn
Cyngor Gwynedd,
Stryd y Jêl
Caernarfon
LL55 1SH

Cyfeirnod IH 201718

Dyddiad 27/11/2018

Tudalennau

1 o 4

Annwyl Dilwyn a Dyfrig

Llythyr Archwilio Blynyddol – Cyngor Gwynedd 2017-18

Mae'r llythyr yn crynhoi'r negeseuon allweddol a gyfyd o gyfrifoldebau statudol Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a fy nghyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau o ran adrodd ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb Cyngor Gwynedd (y Cyngor) yw:

- rhoi systemau rheoli ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodiadau a sicrhau bod ei asedau yn ddiogel;
- cynnal cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei ddefnydd o adnoddau, ac adolygu hyn yn gyson.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei ddefnydd o adnoddau; a
- chyflwyno tystysgrif yn cadarnhau fy mod i wedi cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn wedi'i seilio ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Paratowyd y datganiadau ariannol drafft i safon dda ar y cyfan ac fe'u hategwyd gan ddogfennau gweithiol cynhwysfawr ac amserol. Adroddwyd y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol i aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiad o'r Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ar 27 Medi 2018.

Ar 28 Medi 2018, cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol farn archwilio ddiamedd ar y datganiadau ariannol yn cadarnhau eu bod yn cyflwyno darlun gwir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor.

Mae gwerth nodi hefyd yr arweiniodd y Cyngor y gwaith o baratoi cyfrifon y Cyd-bwyllgor GwE ac y paratodd Ddatganiadau Blynyddol Harbyrau Gwynedd, a'r Pwyllgor Polisi Cynllunio Ar y Cyd. Ar 28 Medi 2018:

- Cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol farn archwilio ddiamedd ar gyfrifon Cyd-bwyllgor GwE yn cadarnhau eu bod yn cyflwyno darlun gwir a theg o sefyllfa a thrafodiadau ariannol y Pwyllgor; a
- Chadarnhaodd yr Archwilydd Cyffredinol fod yr wybodaeth yn y datganiadau blynyddol ar gyfer Harbyrau Gwynedd a'r Pwyllgor Polisi Cynllunio Ar y Cyd yn gydnaws ag arferion priodol.

Adroddwyd y materion allweddol sy'n deillio o'r archwiliadau hyn i'r pwyllgorau perthnasol pan oedd hynny'n briodol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei ddefnydd o adnoddau

Mae ystyriaeth yr Archwilydd Cyffredinol o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon, yn ogystal â dibynnu ar y gwaith a wnaed o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn dwyn sylw at feysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau wedi amlygu'i hun hyd yma neu feysydd y gellid eu gwella pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Hyd yn hyn, nid yw fy ngwaith ardystio ceisiadau a ffurflenni grant ar ran yr Archwilydd Cyffredinol wedi nodi materion sylweddol a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2018-19 neu systemau ariannol allweddol

Nid yw fy ngwaith parhaus o ardystio ceisiadau a ffurflenni grantiau, wedi nodi unrhyw faterion sylweddol hyd yn hyn o ran y cyfrifon na systemau ariannol allweddol y Cyngor. Byddaf yn adrodd unrhyw faterion allweddol i'r Cyngor pan fydd rhaglen eleni o waith ardystio wedi'i chwblhau.

Mae gan y Cyngor hanes o reoli ei gyllid, ond bydd yr her ariannol yn parhau yn y tymor canolig

Yn 2017-18, adroddodd y Cyngor orwariant o £0.573 miliwn mewn cysylltiad â'i wariant net a arweiniodd at ostyngiad o £1.088 miliwn i'w gronfeydd wrth gefn y gellid eu defnyddio. Ar 31 Mawrth 2018, roedd gan y Cyngor gronfeydd wrth gefn y gellid eu defnyddio gwerth £56.220 miliwn, ac roedd £42.476 miliwn o hynny mewn cronfeydd wrth gefn wedi'u neilltuo a £4.018 miliwn mewn ysgolion. Cyllid cyni sy'n parhau i fod yr her fwyaf sylweddol i gyrrff llywodraeth leol yng Nghymru ac mae'r pwysau ariannol hyn yn debygol o barhau yn y tymor canolig. Wrth bennu ei gyllideb ar gyfer 2018-19, nododd y Cyngor yr angen i wneud arbedion gwerth £5.90 miliwn.

Bydd y setliad ariannol dros dro diweddar yn ostyngiad o 0.8% i setliad y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20.

Mewn ymateb i'r pwysau hyn, mae'r Cyngor wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd ynghylch ble i neilltuo'r adnoddau prin ac ystyried ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau i bobl. Yn ei gynllun ariannol tymor canolig y mae wedi nodi'r targedau a'r arbedion canlynol i gyrraedd y targedau hynny.

Tymor Byr: Lleihau'r bwch cyllid o £5.90 miliwn trwy gyfanswm o £2.75 miliwn o arbedion effeithlonrwydd a thoriadau cymeradwy i'r gyllideb a chynnydd o 4.5% i'r Dreth Gyngor, a fydd yn creu incwm ychwanegol o £3.20 miliwn.

Tymor Canolig: Cynlluniau i arbed £20 miliwn yn ystod y blynyddoedd o 2018/19 - 2020/21 trwy barhau â'r strategaeth arbedion. Yn rhan o'i gynllun tymor canolig, mae'r awdurdod yn disgwyl defnyddio'i gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio o gronfa benodol i gyllid gwerth £1.51 miliwn o geisiadau un-tro sy'n ofynnol i sicrhau parhad gwasanaethau sylfaenol, ond nid yw'n bwriadu defnyddio balansau cyffredinol yn 2018/19.

Disgwylir y bydd y ffi archwilio ariannol ar gyfer 2017-18 yn unol â'r ffi y cytunwyd arni ac a nodir yn y Cynllun Archwilio Blynyddol.

Yn gywir

Ian Howse

Ar gyfer ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

Atodiad 3

Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2018-19

Arddangosyn 2: argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2018-19

Crynodeb o'r cynigion ar gyfer gwella sy'n berthnasol i lywodraeth leol, sydd wedi'u cynnwys mewn adroddiadau cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ers cyhoeddi'r AGB diwethaf.

Dyddiad yr adroddiad	Teitl yr adolygiad	Argymhelliad
Hydref 2018	<u>Caffael Capasiti Trin Gwastraff Gweddilliol a Gwastraff Bwyd</u>	<p>A1 Mae'r rhagamcanion ar gyfer y tri phrosiect gwastraff gweddilliol yn y Rhaglen yn tybio y bydd cyfanswm y gwastraff gweddilliol yn cynyddu hyd ddiwedd y contractau, ar draws y 14 o gynghorau sy'n cymryd rhan. Os yw'r rhagamcanion hyn yn gywir, byddai angen i rywbeth mawr ddigwydd ar ôl 2040 er mwyn cyrraedd sefyllfa dim gwastraff ar draws yr ardaloedd cyngor hyn erbyn 2050. Os nad yw'r rhagamcanion yn gywir, ceir risg y bydd cynghorau'n talu am gapasiti na fydd ei angen arnynt. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru:</p> <ul style="list-style-type: none">wrth adolygu strategaeth Tuag at Ddyfodol Diwastraff, ystyried sut mae ei huchelgais o sicrhau na cheir unrhyw wastraff gweddilliol erbyn 2050 yn gyson â'r rhagamcanion cyfredol ar gyfer trin gwastraff gweddilliol; agweithio gyda chynghorau i ystyried effaith newidiadau mewn rhagamcanion ar gost debygol

Dyddiad yr adroddiad	Teitl yr adolygiad	Argymhelliad
		<p>prosiectau gwastraff gweddilliol, ac unrhyw gamau lliniarol y mae angen eu cymryd i reoli'r costau hyn.</p> <p>A2 Hyd yma, mae cymorth rhaglen Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio'n bennaf ar ddatblygu a chaffael prosiectau. Gan fod y rhan fwyaf o'r prosiectau bellach yn weithredol, mae'r sylw wedi troi tuag at reoli contractau. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru barhau i oruchwylio prosiectau yn ystod y cam gweithredol drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • adeiladu ar ei model presennol, lle mae'n darparu unigolion profiadol i gynorthwyo i ddatblygu a chaffael prosiectau, a gwneud yn siŵr bod mewnbyn ar gael er mwyn cynorthwyo i reoli contractau os oes angen; • nodi ei disgwyliadau gan gynghorau o ran rheoli contractau; • sicrhau bod partneriaethau'n ailystyried eu rhagamcanion gwastraff a'r risgiau cysylltiedig bob hyn a hyn, er enghraifft er mwyn adlewyrchu amcanestyniadau cyfredol o'r boblogaeth neu ragolygon economaidd; a • chael gwybodaeth reoli sylfaenol gan bartneriaethau ynghylch ffioedd clwyd a daladwy, faint o wastraff a anfonwyd i'r cyfleusterau ac ansawdd gwasanaeth y contractwr.

Dyddiad yr adroddiad	Teitl yr adolygiad	Argymhelliad
Tachwedd 2018	<u>Gwasanaethau Llywodraeth Leol i Gymunedau Gwledig</u>	<p>A1 O ganlyniad i newidiadau economaidd-gymdeithasol, seilwaith gwan a newidiadau yn y ffordd o ddarparu gwasanaethau a chyfleusterau allweddol, mae cymunedau yng Nghymru wledig wedi dod yn elfen weddilliol. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn cefnogi cyrff cyhoeddus i weithredu dull mwy integredig o ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • adfywio rhaglenni grant gwledig er mwyn creu strwythurau ariannol cynaliadwy, gyda dyraniadau aml-flwyddyn; a • chynorthwyo pobl a busnesau i fanteisio i'r eithaf ar gysylltedd digidol trwy raglenni cymorth busnes ac addysg oedolion mwy effeithiol, wedi eu targedu. <p>A2 Mae rôl Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn esblygu ond mae yna gyfleoedd i fynegi cydweledigaeth gliriach a mwy uchelgeisiol ar gyfer Cymru wledig (gweler paragraffau 2.2 i 2.9 a 2.28 i 2.31). Argymhellwn fod gwasanaethau cyhoeddus sy'n bartneriaid i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymateb yn fwy effeithiol i'r heriau y mae cymunedau gwledig yn eu hwyneb trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • asesu cryfderau a gwendidau eu cymunedau gwledig gwahanol gan ddefnyddio Offeryn Prawfesur Gwledig Llywodraeth Cymru ac adnabod y camau lleol a strategol y mae arnynt

Dyddiad yr adroddiad	Teitl yr adolygiad	Argymhelliad
		<p>angen eu cymryd i gefnogi cynaliadwyedd cymunedol a chytuno arnynt; a</p> <ul style="list-style-type: none"> • sicrhau bod y Cynllun Llesiant Lleol yn cyflwyno gweledigaeth sy'n fwy gobeithiol ac uchelgeisiol ar gyfer 'lle' gyda chydflaenoriaethau a gyd-gynhyrchwyd gan bartneriaid, ar y cyd â dinasyddion, i roi sylw i heriau y cytunwyd arnynt. <p>A3 Er mwyn cynorthwyo i gynnal cymunedau gwledig, mae ar wasanaethau cyhoeddus angen meddwl yn wahanol yn y dyfodol (gweler paragraffau 3.1 i 3.12). Argymhellwn fod cynghorau yn darparu ymateb sy'n fwy effeithiol i'r heriau y mae cymunedau gwledig yn eu hwynebu trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sicrhau bod gan gomisiynwyr gwasanaethau ddata ar gostau a gwybodaeth ansoddol ar y dewis llawn o opsiynau sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau; a • defnyddio barn dinasyddion am ba mor fforddiadwy, hygyrch, digonol, derbyniol ac 'ar gael' y mae gwasanaethau'r cyngor i deilwra sut i ddarparu ac integreiddio gwasanaethau. <p>A4 Er mwyn cynorthwyo i gynnal cymunedau gwledig, mae ar wasanaethau angen gwneud pethau'n wahanol yn y dyfodol (gweler paragraffau 3.1 i 3.12). Argymhellwn fod cynghorau yn gwneud mwy i ddatblygu cydnerthedd cymunedol a hunangymorth trwy:</p>

Dyddiad yr adroddiad	Teitl yr adolygiad	Argymhelliad
		<ul style="list-style-type: none"> • weithio gyda chyrrff perthnasol fel Canolfan Cydweithredol Cymru i gefnogi menter gymdeithasol a modelau busnes mwy cydweithredol; • darparu allgymorth cymunedol wedi'i deilwra ar gyfer y rheini sy'n wynebu rhwystrau niferus sy'n eu hatal rhag defnyddio gwasanaethau cyhoeddus a chael gwaith; • gwella ac adnabod rôl cynghorau tref a chymuned trwy fanteisio ar eu gwybodaeth leol a'u cefnogi i wneud mwy; • annog ymagwedd fwy integredig at ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig trwy sefydlu hybiau cymunedol sy'n rhychwantu gwasanaethau cyhoeddus, rhwydweithiau arbenigedd a chlystyrau o wasanaethau cynghori ac atal; • galluogi gweithredu lleol trwy gefnogi trosglwyddiad asedau cymunedol ac adnabod yr asedau hynny y byddai'n addas eu trosglwyddo, a sicrhau bod y systemau cywir ar waith i wneud i bethau ddigwydd; a • gwella arweiniad yn y gymuned trwy ddatblygu rhwydweithiau o ddiddordeb, hyfforddiant a choetsio ac annog unigolion i wirfoddoli.

Dyddiad yr adroddiad	Teitl yr adolygiad	Argymhelliad
Tachwedd 2018	<u>Rheoli Gwastraff yng Nghymru: Ailgylichu Trefol</u>	<p>A1 O waith meincnodi, gwelwyd bod yr amrywiaeth yng nghost rhai gwasanaethau rheoli gwastraff yn destun syndod (paragraffau 1.31-1.39). Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chynghorau i gael dealltwriaeth well o'r rhesymau wrth wraidd yr amrywio mewn gwariant ar wasanaethau rheoli gwastraff sydd i bob pwrpas yr un peth, a sicrhau y rhoddir cyfrif am gostau rheoli gwastraff mewn modd cyson.</p> <p>A2 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn fod ei Glasbrint Casgliadau, o'i weithredu'n optimaidd, yn cynnig y dull mwyaf cost-ffeithiol yn gyffredinol o gasglu adnoddau ailgylchadwy, ond yn bwriadu gwneud gwaith dadansoddi pellach (paragraffau 1.40-1.51). Wrth ddadansoddi ymhellach er mwyn cael dealltwriaeth well o'r rhesymau wrth wraidd y gwahaniaethau yn y costau a adroddwyd gan gynghorau, a'r effaith ar gostau lle mabwysiadwyd y Glasbrint Casgliadau gan y cynghorau, argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru:</p> <ul style="list-style-type: none"> • archwilio sut y gallai'r gost o gasglu deunyddiau ailgylchadwy sych effeithio ar gyfanswm y gost o ddarparu gwasanaethau rheoli gwastraff ar garreg y drws i aelwydydd; a • chymharu'r costau gwirioneddol â'r costau a fodelwyd yn flaenorol yn rhan o'r adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru o'r Glasbrint

Dyddiad yr adroddiad	Teitl yr adolygiad	Argymhelliad
		<p style="text-align: center;">Casgliadau, yn achos cynghorau sydd bellach yn gweithredu'r Glasbrint Casgliadau.</p> <p>A3 Yn lle'r targedau ailgylchu cyfredol sy'n seiliedig ar bwysau, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ystyried opsiynau amgen a all ddangos yn well sut y mae'n cyrraedd y nod o ran ei hól troed ecolegol a lleihau allyriadau carbon (paragraffau 2.38-2.45). Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno mesurau perfformiad i ddisodli neu ategu'r targed cyfredol i ailgylchu, compostio ac aildefnyddio gwastraff. Pwrpas y mesurau hynny fyddai canolbwyntio o'r newydd wrth ailgylchu ar yr adnoddau gwastraff sy'n cael yr effaith fwyaf o ran lleihau carbon ac/neu sydd yn brin. Rydym yn cydnabod y gallai fod angen i Lywodraeth Cymru ystyried fforddiadwyedd casglu data ar gyfer unrhyw ddull arall o fesur.</p> <p>A4 Wrth ailwampio Tuag at Ddyfodol Diwastraff, mae angen i Lywodraeth Cymru ddangos bod y manteision cynaliadwyedd ehangach a geisir drwy ailgylchu trefol yn cynnig gwerth, ac na ellir defnyddio dulliau eraill rhwyddach a rhatach i'w sicrhau, gan gynnwys ymyraethau rheoli gwastraff eraill, ond heb gyfyngu i hynny o reidrwydd (paragraffau 2.52-2.53). Yn y strategaeth gwastraff ddiwygiedig, dylai Llywodraeth Cymru ddangos ei bod hi nid yn unig yn bosibl i ailgylchu cyfran fwy o wastraff trefol, ond y bydd gwneud hynny'n sicrhau'r cyfraniad</p>

Dyddiad yr adroddiad	Teitl yr adolygiad	Argymhelliad
Tachwedd 2018	<p><u>Darparu Gwasanaethau Llywodraeth Leol i Gymunedau Gwledig: Trosglwyddo Asedau Cymunedol</u></p>	<p>mwyaf posibl ganddi tuag at gyflawni amcanion datblygu cynaliadwy.</p> <p>A1 Mae angen i awdurdodau lleol wneud mwy i sicrhau bod y broses o Drosglwyddo Asedau Cymunedol yn symlach ac yn fwy deniadol, helpu i feithrin gallu Cyngorau Cymuned a Thref, rhoi rhagor o arweiniad iddynt o ran sicrhau cyllid, a gofalu eu bod yn cefnogi modelau datblygu cymunedol eraill, er enghraifft mentrau cymdeithasol sy'n cefnogi gwerth cymdeithasol a chyfranogiad dinasyddion. At hynny, rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn monitro ac yn cyhoeddi nifer yr achosion o Drosglwyddo Asedau Cymunedol ac yn mesur effaith gymdeithasol trosglwyddiadau o'r fath.</p> <p>A2 Mae gan awdurdodau lleol gyfle sylweddol i ddarparu gwell help a chymorth, a hynny mewn modd mwy amlwg, cyn, yn ystod, ac ar ôl y broses o drosglwyddo asedau cymunedol. Down i'r casgliad bod yna gryn le i wella'r gwaith cynllunio busnes a pharatoi ar gyfer trosglwyddo asedau cymunedol, yn ogystal â'r ôl-ofal. Rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • nodi rôl trosglwyddo asedau cymunedol wrth sefydlu canolfannau cymunedol, rhwydweithiau arbenigedd a chlystyrau o wasanaethau cynghori ac atal;

Dyddiad yr adroddiad	Teitl yr adolygiad	Argymhelliad
		<ul style="list-style-type: none"> • gweithio gyda chynghorau tref a chymuned i feithrin eu gallu i ymgymryd â rhagor o gynlluniau Trosglwyddo Asedau Cymunedol; • nodi'r asedau sy'n addas i gael eu trosglwyddo, ac egluro'r hyn y mae angen i'r awdurdod ei wneud i'w galluogi i gael eu trosglwyddo; • sicrhau bod eu polisiau o ran Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn cwmpasu'r canlynol yn ddigonol: ôl-ofal, cefnogaeth hirdymor, cymorth ôl-drosglwyddo, cyfeirio at fynediad at gyllid, a rhannu'r dysgu ynghylch yr hyn sy'n gweithio'n dda; a • cefnogi arweinyddiaeth yn y gymuned trwy ddatblygu rhwydweithiau o ddiddordeb a hyfforddiant, ac annog unigolion i wirfoddoli.
Rhagfyr 2018	<u>Aeddfedrwydd llywodraeth leol o ran y defnydd o ddata</u>	<p>A1 Mae Rhan 1 o'r adroddiad yn amlygu pwysigrwydd creu diwylliant data cryf ac arweinyddiaeth eglur i wneud gwell defnydd o ddata. Rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sicrhau bod ganddynt weledigaeth eglur sy'n trin data fel adnodd allweddol; • sefydlu safonau a chodau data corfforaethol y mae pob gwasanaeth yn eu defnyddio ar gyfer eu data craidd;

Dyddiad yr adroddiad	Teitl yr adolygiad	Argymhelliad
		<ul style="list-style-type: none"> • ymgymryd ag archwiliad i bennu'r data sy'n cael eu cadw gan wasanaethau ac i nodi unrhyw gofnodion a cheisiadau am wybodaeth dyblyg; a • chreu cyfrif cwsmer integredig canolog fel porth i wasanaethau. <p>A2 Er ei bod yn bwysig bod awdurdodau'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data berthnasol, mae Rhan 2 o'r adroddiad yn nodi'r angen iddynt hefyd rannu data â phartneriaid er mwyn sicrhau bod dinasyddion yn cael gwasanaethau effeithlon ac effeithiol. Er nad yw hyn yn golygu bod y ddeupeth hyn yn annibynnol ar ei gilydd, mae ansicrwydd ynghylch cyfrifoldebau diogelu data yn golygu nad yw rhai swyddogion yn rhannu data, hyd yn oed lle bo cytundeb mewn bodolaeth i roi gwybodaeth i bartneriaid. Rydym yn argymhell bod awdurdodau yn gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • darparu hyfforddiant diweddarau i reolwyr gwasanaethau i sicrhau eu bod yn gwybod pryd y gallant rannu data ai peidio, a'r math o ddata y gallant eu rhannu; ac • adolygu a diweddarau protocolau rhannu data er mwyn sicrhau eu bod yn cefnogi gwasanaethau i gyflawni eu cyfrifoldebau rhannu data. <p>A3 Yn Rhan 3 o'n hadroddiad, rydym yn dod i gasgliad bod adnoddau digonol a gallu digonol yn heriau parhaus. Fodd bynnag, heb uwchsgilio staff i wneud gwell</p>

Dyddiad yr adroddiad	Teitl yr adolygiad	Argymhelliad
		<p>defnydd o ddata, mae awdurdodau yn colli cyfleoedd i wella eu heffeithlonrwydd a'u heffeithiolrwydd. Rydym yn argymhell bod awdurdodau yn gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • dynodi staff sydd â rôl yn y broses o ddadansoddi a rheoli data i gael gwared ar ddyblygu, ac i ryddhau adnoddau i feithrin a datblygu'r gallu i ddefnyddio data; a • buddsoddi yn sgiliau dadansoddi, cloddio a segmentu data y staff, a chefnogi eu datblygiad. <p>A4 Mae Rhan 4 o'n hadroddiad yn amlygu bod gan awdurdodau ragor i'w wneud mewn perthynas â chreu diwylliant gwneud penderfyniadau dan arweiniad data, ac o ran datgloi potensial y data y maent yn eu cadw. Rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gosod safonau adrodd ar ddata i sicrhau bod y safonau data gofynnol yn ategu'r broses o wneud penderfyniadau; a • sicrhau bod mwy o ddata agored ar gael.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru